



Cardiff South West Neighbourhood Partnership
Partneriaeth Cymdogaeth De-orllewin Caerdydd

Ffocws ar Dde-orllewin

Grŵp Gorchwyl Cyfeirio Cymdeithasol

Ydych chi erioed wedi clywed am gyfeirio cymdeithasol? Mae'n syniad sy'n dod yn gynyddol boblogaidd yn cysylltu pobl y mae arnyn nhw anghenion emosiynol neu gymdeithasol â gweithgareddau cymunedol ac felly'n cynnig cefnogaeth anfeddygol iddyn nhw. Dydy hyn ddim o reidrwydd yn disodli gofal sylfaenol ond gall fod yn ffordd dda o ddefnyddio mentrau lleol er mwyn cydfynd â gwaith y meddyg teulu. Dychmygwch sefyllfa lle mae claf yn mynd at y meddyg teulu am iselder, yna mae'n cael ei gyfeirio at grŵp cefnogi lleol. Wrth aros nifer o wythnosau am gwrsela gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae'n bosib trawsnewid profiad y claf drwy ateb ei

anghenion ynghynt a hynny yn lleol iddo ef. Mewn partneriaeth â Chlwstwr Meddygon Teulu de-orllewin Caerdydd a phartneriaid eraill megis C3SC, Cymunedau yn Gyntaf ac Iechyd y Cyhoedd, mae'r Bartneriaeth Cymdogaeth yn ffurfio grŵp dan arweiniad meddygon teulu gyda'r bwriad o lunio proses gyfeirio fel yr uchod ar gyfer meddygon teulu. Mae C3SC a Chymunedau yn Gyntaf eisoes yn cefnogi llawer o grwpiau iechyd meddwl ac mae Menter Caerdydd a'r Fro dros Iechyd Meddwl wedi cynnig eu cyfleuster ar-lein er mwyn creu cyfeirlyfr grwpiau. Bydd y grŵp gorchwyl yn ystyried cynlluniau sydd eisoes yn bodoli (yn cynnwys swyddi "Cyfeirydd Cymdeithasol" a



Aelodau tîm Menter Caerdydd a'r Fro dros Iechyd Meddwl ar Trade Street, ger Williams Court



Aelodau Clwstwr Meddygon Teulu de-orllewin Caerdydd yn cwrdd ym Meddygfa Lansdowne

chynlluniau gwirfoddoli) ac yn awgrymu'r opsiynau gorau.

Cymdeithas Marchnadoedd Cymunedol Glan-yr-afon

Mae llawer o breswylwyr Caerdydd yn gyfarwydd â'r farchnad awyr agored fywiog ar hyd glannau Afon Taf bob bore Sul. Mae'r farchnad yn cynnwys stondinau bwyd ffres, crefftau a lle prysur i siopa a chymdeithasu. Y tu cefn i hyn i gyd, mae Cymdeithas Marchnadoedd Cymunedol Glan-yr-afon, menter gymdeithasol a sefydlwyd ym 1998 sydd bellach yn rhan annatod o'r gymuned fanwerthu yng Nghaerdydd. Mae'r Gymdeithas yn credu'n gryf mewn bwyd ffres lleol ac mae hyn yn amlwg wrth weld menter arall ganddynt, sef Project Rhandir Cymunedol Glan-yr-afon. Eglurodd Isla Horton, aelod o'r Gymdeithas: " Mae

Gardd Gymunedol Glan-yr-afon yn lle arbennig iawn sy'n croesawu pawb, ac mae'r gymuned a chloncian dros baned yn gymaint o ran ohoni ag ydy tyfu tatws!" Mae awydd cymunedol mawr i dyfu cnwd yng Nghaerdydd nawr ac mae'r Gymdeithas wedi cefnogi mwy a mwy o brojectau gwirfoddol drwy'r ddinas. Ac mae hyn wedi arwain at greu sefydliad newydd yng Nghaerdydd: Tyfu Caerdydd ar 1 Hydref. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn creu project tyfu yng Nghaerdydd, mae croeso i chi gysylltu ag Isla ar: isla@riversidemarket.org.uk neu 07403 583705. Hefyd, os hoffech gydweithio gyda'r



Marchnad Glan-yr-afon, gyferbyn â




Gareth Simpson, Rheolwr Datblygu Busnes Cymdeithas Marchnadoedd

farchnad, cysylltwch â Gareth Simpson: gar-eth.riversidemarket.org.uk



Hoffai Partneriaeth Cymdogaeth de-orllewin Caerdydd dynnu eich sylw at Ddiwrnod Iechyd Meddwl Rhyngwladol ar 10 Hydref. Os hoffech ymwneud ag ymgych yrwyddo, cysylltwch â mark.davies2@caerdydd.gov.uk.



- Prif Twīts

- Yn 14/15, helpodd Hyb Trelái a Chaerau 2015 ddefnyddwyr y clwb swyddi i ddod o hyd i waith gyda chymorth I Mewn I Waith, Cyngor Caerdydd, Trelái a Chaerau a @dwp
- 1/3 Byw yn ne orllewin Caerdydd? Mae llawer yn digwydd ym Mharc Victoria, Treganna nawr.
- 2/3 Mae Pêl-Foli Traeth Caerdydd wedi cymryd yr hen faes bowlïo nad oedd unrhyw un yn ei ddefnyddio, a'i droi yn gwrth pêl-foli.
- 3/3 Mae Cyngor Caerdydd wedi